Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Canllaw i'r

# Trydydd Cynulliad

Uned Weithdrefnau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Ebrill 2007

# Canllaw i'r Trydydd Cynulliad

Yr Uned Weithdrefnau

Ebrill 2007

© Hawlfraint y Goron 2007

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**Uned Weithdrefnau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**
Sian Wilkins est. 8224
Gareth Williams est. 8008

**CYNNWYS**


**Rhagymadrodd**

**1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
- 1.1 Yr Aelodau
- 1.3 Y Llywydd a'r Dirprwy
- 1.5 Y Comisiwn

**2 Llywodraeth Cynulliad Cymru**
- 2.1 Cyffredinol
- 2.2 Gweinidogion Cymru
- 2.5 Dirprwy Weinidogion Cymru
- 2.6 Y Cwnsler Cyffredinol

**3 Y Cyfarfod Llawn a Rheoli Busnes y Cynulliad**
- 3.1 Trefn Busnes
- 3.6 Amserau'r cyfarfodydd llawn
- 3.7 Hysbysiad Busnes

**4 Pwyllgorau**
- 4.1 Cyffredinol
- 4.7 Pwyllgorau Craffu
- 4.9 Pwyllgorau Mesurau/Gorchmynion
- 4.11 Y Pwyllgor Busnes
- 4.16 Pwyllgorau Eraill –
  - Y Pwyllgor Archwilio
  - Y Pwyllgor Cyllid
  - Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
  - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
  - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, Pwyllgor Craffu ar Waith Prif Weinidog Cymru
  - Pwyllgorau Rhanbarth
  - Pwyllgorau Eraill

**5 Deddfwriaeth**
- 5.1 Cyffredinol
- 5.5 Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol
- 5.11 Mesurau
- 5.17 Is-ddeddfwriaeth
- 5.21 Mesurau yn Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau newydd a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol y Cynulliad

**6 Cyllid a Chronfa Gyfunol Cymru**

**7 Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

**8 Y Gymraeg**

**9 Gweld Gwybodaeth**

**10 Penodiadau Cyhoeddus**

## Canllaw i'r Trydydd Cynulliad

### Rhagymadrodd

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r newidiadau allweddol a ddaw i rym yn y Trydydd Cynulliad o ganlyniad i'r Rheolau Sefydlog newydd sydd wedi'u gwneud yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ('y Ddeddf').

### 1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Aelodau

1.1 Yn y Trydydd Cynulliad, fydd dim llawer o newid yn y trefniadau i'r Aelodau, ac eithrio bod Rheol Sefydlog 1, yn unol â gofynion y Ddeddf, yn cynnwys darpariaeth newydd ar gyfer gwneud cod neu brotocol ynghylch rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol.

1.2 Mae'r cod i'w ddrafftio gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a rhaid iddo gynnwys darpariaeth ar gyfer y pum egwyddor allweddol sydd wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 1 a'r Atodiad iddi.

Y Llywydd a'r Dirprwy

1.3 Yn unol â gofynion y Ddeddf, fydd y Llywydd a'r Dirprwy ddim yn gallu dod o'r un grŵp gwleidyddol mwyach nac o grwpiau y mae gan y ddau ohonyn nhw rôl weithredol. Mae Rheol Sefydlog 2 yn mynd ymhellach na'r Ddeddf gan ei gwneud yn ofynnol i'r naill ddod o'r llywodraeth ac i'r llall ddod o'r wrthblaid (er y gall hyn gael ei ddatgymhwyso drwy sicrhau mwyafrif o ddwy ran o dair yn y cyfarfod llawn).

1.4 Ni fydd gan y Llywydd a'r Dirprwy bleidlais mwyach (heblaw pleidlais fwrw) yn nhrafodion y cyfarfod llawn nac mewn pwyllgor o'r Cynulliad cyfan.

Y Comisiwn

1.5 Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiwn y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau a staff ac i ddal eiddo ar ran y Cynulliad.

1.6 Aelodau'r Comisiwn fydd y Llywydd (yn Gadeirydd) a phedwar Aelod arall, i'w penodi gan y Cynulliad.

1.7 Bydd staff y Cynulliad, o dan arweiniad y Clerc a Phrif Weithredwr, yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn ac nid gweision sifil fyddan nhw, er bod y Ddeddf yn darparu na fydd eu telerau a'u hamodau gwasanaeth yn llai ffafriol nag oedden nhw cyn i'r Cynulliad newydd gael ei greu.

1.8 Bydd Pwyllgor y Tŷ yn peidio â bodoli yn y Trydydd Cynulliad.

### 2. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyffredinol

2.1 Mae'r Ddeddf yn creu Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd o ran y gyfraith yn wahanol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Erbyn hyn, nid yw Prif Weinidog Cymru'n cael ei ethol gan y Cynulliad, ond ei benodi gan y Frenhines, yn sgil enwebiad y Cynulliad. Wedyn mae Prif Weinidog Cymru'n penodi Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth Ei Mawrhydi, hyd at derfyn uchaf statudol o 12.

Gweinidogion Cymru

2.2 Mae Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru a benodir gan Brif Weinidog Cymru, gyda'i gilydd, yn cael eu hadnabod fel 'Gweinidogion Cymru'.

2.3 Bydd y swyddogaethau gweithredol a roddid gynt i'r Cynulliad fel corff corfforaethol yn dod yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru a chaiff swyddogaethau newydd eu breinio'n uniongyrchol yng Ngweinidogion Cymru, fel y bo'n briodol.

2.4 Bydd staff Llywodraeth y Cynulliad yn cael arfer y mwyafrif o swyddogaethau Gweinidogion Cymru y maen nhw'n gweithio iddyn nhw heb i'r rheiny gael eu dirprwyo'n benodol. Mae'n dal yn bosibl i'r Gweinidogion gadw rhai swyddogaethau i'w harfer eu hunain.

Dirprwy Weinidogion Cymru

2.5 Yn wahanol i'r Cynulliad Cyntaf a'r ail Gynulliad lle nad oedd gan y Dirprwy Weinidogion statws cyfreithiol, yn y Trydydd Cynulliad bydd gan Ddirprwy Weinidogion Cymru y swyddogaeth statudol o gynorthwyo Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i arfer eu swyddogaethau. Caiff Dirprwy Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau ac ateb cwestiynau'r Cynulliad ar unrhyw fater y maen nhw'n cynorthwyo Gweinidogion Cymru ynglŷn â nhw.

Y Cwnsler Cyffredinol

2.6 Mae'r Ddeddf yn sefydlu swydd y Cwnsler Cyffredinol, a fydd yn gynghorydd cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn gynrychiolydd iddi yn y llysoedd.

2.7 Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn cael ei benodi gan Ei Mawrhydi, yn unol ag argymhelliad Prif Weinidog Cymru a chymeradwyaeth y Cynulliad.

2.8 Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn cael bod yn Aelod ond does dim rhaid iddo fod. Os nad yw'n Aelod, caiff y Cwnsler Cyffredinol gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad fel pe bai'n Aelod ond nid pleidleisio.

## 3. Y Cyfarfod Llawn a Rheoli Busnes y Cynulliad

Trefn Busnes

3.1 Mae Rheolau Sefydlog 6 a 7 yn darparu ar gyfer ffordd newydd o drefnu busnes yn y cyfarfod llawn, gan gynnwys cyflwyno'r cysyniadau canlynol -

- 'busnes y llywodraeth', e.e. cwestiynau llafar, datganiadau gan y Gweinidogion;

- 'busnes heblaw busnes y llywodraeth', e.e. deddfwriaeth heblaw deddfwriaeth y llywodraeth, adroddiadau pwyllgorau;
- 'busnes y Cynulliad', e.e. datganiadau gan y Llywydd, teyrngedau ar ôl marwolaeth.

3.2 Bydd trefn busnes y llywodraeth yn cael ei phennu gan y llywodraeth; bydd busnes heblaw busnes y llywodraeth, a busnes y Cynulliad, yn cael ei bennu gan y Pwyllgor Busnes (gweler paragraff 4.11 i gael rhagor o fanylion am swyddogaethau'r Pwyllgor Busnes).

3.3 Ar gyfer pob wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfod llawn, bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth yn gwneud datganiad ynghylch trefn busnes y llywodraeth yn y cyfarfodydd llawn ac yn cyhoeddi trefn busnes heblaw busnes y llywodraeth, a busnes y Cynulliad, yn y cyfarfodydd llawn am y tair wythnos ganlynol.

3.4 Fydd dim pleidlais ar ddatganiad y Gweinidog ar drefn busnes y llywodraeth nac ar y cyhoeddiad cyfatebol ar fusnes heblaw busnes y llywodraeth a busnes y Cynulliad. Yn hytrach, bydd hanner awr yn cael ei ddyrannu ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth am drefn y busnes hwnnw. Mae hyn yn wahanol i'r arfer yn y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad, lle byddai'r Aelodau'n pleidleisio ar y Datganiad Busnes wythnosol.

3.5 Bydd yr amser a gaiff ei ddyrannu yn y cyfarfodydd llawn i fusnes y llywodraeth a busnes heblaw busnes y llywodraeth yn y cyfrannedd o 3:2 yn y drefn honno, gan gyfrifo dros gyfnod o flwyddyn Gynulliad.

Amserau'r cyfarfodydd llawn

3.6 Mae Rheol Sefydlog 7 yn nodi trefniadau newydd ar gyfer y cyfarfodydd llawn:

Ar ddydd Mawrth, bydd cyfarfod llawn yn cael ei gynnal o 2pm - 5.30pm i ystyried busnes y llywodraeth a busnes y Cynulliad yn unig;

Ar ddydd Mercher, caiff y cyfarfod llawn ei ymestyn er mwyn cyfarfod o 12.30pm - 2pm i ystyried busnes y llywodraeth ac o 2pm - 5.30pm i ystyried busnes heblaw busnes y llywodraeth, a busnes y Cynulliad.

Mae'r Rheol Sefydlog yn darparu i'r cyfarfodydd hyn gael eu hymestyn o dan amgylchiadau penodol os bydd angen gwneud hynny.

Yr Hysbysiad Busnes

3.7 Mae Rheol Sefydlog 6 yn gosod gofyniad newydd ar y Clerc i gyhoeddi Hysbysiad Busnes, sy'n gorfod cynnwys hysbysiad o agenda'r cyfarfodydd llawn a'r pwyllgorau, ynghyd â gwybodaeth am gwestiynau, cynigion, deddfwriaeth, gwelliannau a dogfennau sydd wedi'u cyflwyno neu wedi'u gosod gerbron y Cynulliad ers yr Hysbysiad Busnes diwethaf.

## 4. Pwyllgorau

Cyffredinol

4.1 Dim ond un pwyllgor sydd wedi'i bennu gan y Ddeddf, sef y Pwyllgor Archwilio, ond mae hi'n darparu i'r Cynulliad sefydlu unrhyw bwyllgorau eraill y mae eu hangen.

4.2 Bydd aelodaeth pwyllgor yn cael ei phennu gan y Cynulliad drwy bleidlais lle mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair, ar gynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes. Ni chaniateir i gynnig o'r fath basio oni bai ei fod yn argymell aelodaeth sy'n adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol). Os na fydd unrhyw gynnig o'r fath yn cael ei gytuno gan y Cynulliad, bydd aelodaeth y pwyllgor hwnnw yn cael ei phennu yn unol â fformwla d'Hondt.

4.3 Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu i bwyllgorau craffu gael eu sefydlu ond dydyn nhw ddim yn pennu eu nifer na'u cylch gorchwyl - sef penderfyniad sydd i'w gymryd gan y Trydydd Cynulliad.

4.4 Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau ad hoc i graffu ar ddeddfwriaeth y Cynulliad a materion eraill.

4.5 Y pwyllgorau fydd yn penderfynu pa bryd a pha mor aml y byddan nhw'n cyfarfod, o fewn y blociau amser a gaiff eu neilltuo ar gyfer busnes y pwyllgorau.

4.6 Fydd y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion ddim yn cael eu gwahardd rhag bod yn aelodau o bwyllgorau heblaw'r Pwyllgor Archwilio, ond yn ymarferol y disgwyl yw mai ar bwyllgorau mesurau neu bwyllgorau gorchmynion yn unig y byddan nhw'n eistedd.

Pwyllgorau Craffu

4.7 Er nad yw'r Rheolau Sefydlog yn rhagnodi faint o bwyllgorau craffu a fydd yn bodoli ar unrhyw un adeg, fe allai maint y Cynulliad gyfyngu ar y nifer y mae'n ymarferol iddyn nhw eistedd. O ganlynid i hyn, disgwylir y bydd nifer fach o bwyllgorau craffu trawsbynciol, a'r rheiny'n ymdrin â phynciau eang.

4.8 Aelodau'r Trydydd Cynulliad fydd yn penderfynu ar rôl y pwyllgorau, ond mae'n debyg o gynnwys craffu ar bolisïau'r Gweinidogion a datblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth y Cynulliad ar unrhyw fater o fewn eu cylch gorchwyl. Mae'n annhebyg y bydd y Gweinidogion yn eistedd fel aelodau o'r pwyllgorau hyn, ond mae'n dal yn bosibl eu gwahodd i roi tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau polisi penodol neu eu holi yn gyffredinol am eu portffolios.

Pwyllgorau Mesurau/Gorchmynion

4.9 Bydd Pwyllgorau Mesurau neu Bwyllgor Gorchmynion ar wahân yn cael eu sefydlu yn ôl yr angen i graffu ar Fesurau Cynulliad arfaethedig ac i wneud gwaith craffu cyn deddfu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig (Gorchmynion Cyfrin Gyngor).

4.10 Mae'n debyg y bydd y Gweinidogion yn eistedd ar y pwyllgorau hyn.

Y Pwyllgor Busnes

4.11 Aelodau'r Pwyllgor Busnes yn y Trydydd Cynulliad fydd y Llywydd (yn Gadeirydd) ac un Aelod o bob grŵp gwleidyddol (ar yr amod y bydd dwy ran o dair o'r Cynulliad sy'n pleidleisio yn cefnogi'r enwebiadau). Mae yna ddarpariaeth newydd hefyd ar gyfer cynrychiolaeth i Aelodau annibynnol a phleidiau a llai na thri Aelod ganddyn nhw.

4.12 Bydd penderfyniadau'r pwyllgor yn cael eu gwneud drwy bleidlais wedi'i phwysoli, a hynny ar sail cynrychiolaeth y pleidiau yn y Cynulliad.

4.13 Caiff y Pwyllgor Busnes gyfarfod yn breifat er mwyn penderfynu ar drefn busnes heblaw busnes y llywodraeth a busnes y Cynulliad yn y cyfarfodydd llawn. Bydd pwysoliad pleidlais yr aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Pwyllgor Busnes ar benderfyniadau ynglŷn â threfn busnes heblaw busnes y llywodraeth wedi'i seilio ar gynrychiolaeth plaid yr aelod hwnnw ar y meinciau cefn yn unig.

4.14 Bydd swyddogaethau pwysig eraill y Pwyllgor Busnes yn cynnwys cynnig maint ac aelodaeth y pwyllgorau i'w cymeradwyo gan y cyfarfod llawn a nifer o swyddogaethau mewn perthynas ag ystyried Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig a Mesurau arfaethedig, e.e. pennu'r amserlen ar gyfer y cyfnodau pwyllgor.

4.15 Bydd y Pwyllgor Busnes newydd yn dal yn gyfrifol am faterion y gweithdrefnau, gan gynnwys argymell newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ac ar gyfer y rhan hon o'i waith bydd yn cyfarfod yn gyhoeddus.

Pwyllgorau Eraill

4.16 Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y gellir cael nifer o bwyllgorau penodol:

<u>Y Pwyllgor Archwilio</u>

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yna Bwyllgor Archwilio ac iddo'r un swyddogaethau â'r pwyllgor a geid cyn 2007 ynghyd â swyddogaethau newydd sy'n ymwneud â chyllideb yr Archwilydd Cyffredinol ac ystyried a chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad ar ddefnyddio adnoddau gormodol heb awdurdod.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn gofyn bod y Pwyllgor yn cynnwys 10 o aelodau.

<u>Y Pwyllgor Cyllid</u>

Mae'r Pwyllgor Cyllid sydd newydd gael ei sefydlu wedi'i fwriadu i sicrhau bod proses y gyllideb yn fwy trylwyr ac agored.

Yn ychwanegol at graffu ar gynigion Gweinidogion Cymru ar gyfer y gyllideb, bydd y pwyllgor hwn hefyd yn cael cyflwyno adroddiadau ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant Llywodraeth y Cynulliad.

<u>Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth</u>

Mae gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth newydd gylch gorchwyl estynedig sy'n darparu ar gyfer craffu technegol a chraffu **ar bolisi** (swyddogaeth

‘rhagoriaethau’) a chyflwyno adroddiadau ar offerynnau statudol (OS) a wneir gan Weinidogion Cymru sy’n destun gweithdrefnau’r Cynulliad.

Mae’r pwyllgor hwn yn cael ystyried materion penodol eraill hefyd, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth arall sy’n cael ei gosod gerbron y Cynulliad ac unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol arall sy’n effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru.

Bydd hefyd yn asesu pa mor briodol yw’r darpariaethau mewn Mesurau arfaethedig sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru (e.e. a ddylai’r swyddogaeth o dan sylw fod yn swyddogaeth weithredol neu beidio ac a yw’r weithdrefn Gynulliad sydd wedi’i phennu ar gyfer y swyddogaeth yn addas).

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cael ei ymestyn er mwyn ymdrin â’r cod neu’r protocol newydd arfaethedig ar rolau a chyfrifoldebau Aelodau rhanbarthol ac Aelodau etholaeth.

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a Phwyllgor Craffu ar Waith Prif Weinidog Cymru

Mae gan y pwyllgorau hyn gylch gorchwyl eang er mwyn caniatáu iddyn nhw ddatblygu eu rolau eu hunain yn y Trydydd Cynulliad.

Pwyllgorau Rhanbarth

Dydy’r Rheolau Sefydlog ddim yn gofyn mwyach bod rhaid cael pwyllgorau rhanbarth. Yn hytrach maen nhw’n darparu iddyn nhw gael eu sefydlu os bydd y mwyafrif o’r Aelodau etholaeth a’r Aelodau rhanbarthol sy’n cynrychioli rhanbarth etholiadol yn dymuno eu cael. Mewn achos o’r fath, bydd cynnig i sefydlu pwyllgor i’r rhanbarth yn cael ei gyflwyno i’r Cynulliad ei gymeradwyo.

Pwyllgorau Eraill

Mae’r Rheolau Sefydlog yn darparu i bwyllgorau eraill gael eu sefydlu yn ystod Cynulliad, gan gynnwys pwyllgor o’r Cynulliad cyfan i ystyried Deddfwriaeth.

## 5. Deddfwriaeth

Cyffredinol

5.1 Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Trydydd Cynulliad wedi’i fynegi yn nhermau ‘materion’ o fewn ‘meysydd’:
- Pwnc bras yw ‘maes’, e.e. priffyrdd a thrafnidiaeth, tai;
- Mae ‘mater’ yn fater polisi penodol sydd wedi’i ddiffinio o fewn maes.

5.2 Yn y materion y mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol ynddyn nhw, caiff y Cynulliad wneud ei gyfreithiau ei hun, o’r enw ‘Mesurau’. Bydd i Fesur effaith debyg i un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig.

5.3 Mae'r meysydd a'r materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd wedi'u nodi yn Atodlen 5 i'r Ddeddf.

5.4 Gall Atodlen 5 gael ei diwygio (hynny yw, gall pwerau ychwanegol i wneud Mesurau gael eu rhoi) drwy naill ai:

- un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig; neu
- Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad a Senedd y Deyrnas Unedig ill dau).

Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

5.5 Math o Orchymyn Cyfrin Gyngor yw Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a byddan nhw'n trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol penodol o Senedd y Deyrnas Unedig i'r Cynulliad drwy ddiwygio Atodlen 5 i'r Ddeddf.

5.6 Caniateir i Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gael ei gynnig gan Lywodraeth y Cynulliad, un o bwyllgorau'r Cynulliad, neu, os bydd yn llwyddo mewn balot a dynnir o dro i dro gan y Llywydd, gan Aelod unigol.

5.7 Yn achos Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a gynigir gan Aelod, dim ond os yw wedi cyflwyno'r dogfennau angenrheidiol y caiff yr Aelod ymuno â'r balot - sef amlinelliad o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig a Memorandwm Esboniadol. Os bydd yn llwyddo yn y balot, bydd yr Aelod yn gofyn i'r Cynulliad gytuno i'w Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig gael ei osod.

5.8 Yn y Cynulliad, bydd yna broses dau gam ar gyfer cymeradwyo Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, sef:

(i) craffu cyn deddfu ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol **arfaethedig** gan bwyllgor Gorchymyn ad hoc; a

(ii) cymeradwyo Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol **drafft** (na chaniateir ei ddiwygio) yn y cyfarfod llawn.

5.9 Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer cydweithio i graffu cyn deddfu â phwyllgorau Tŷ'r Cyffredin, pwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi neu gyd-bwyllgor i'r ddau Dŷ.

5.10 Ar ôl i'r Cynulliad gytuno arno, mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w osod gerbron dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ac, o'i gymeradwyo, i'w wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cael gwrthod gosod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft gerbron Senedd y Deyrnas Unedig a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i Brif Weinidog Cymru am unrhyw benderfyniad o'r fath i wrthod).

Mesurau

5.11 Yn y materion y mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol ynddyn nhw, bydd y Trydydd Cynulliad yn gwneud ei ddeddfwriaeth ei hun, o'r enw 'Mesurau

Cynulliad', a fydd yn debyg o ran eu heffaith i un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig.

5.12 Caniateir i Fesurau gael eu cynnig gan Lywodraeth y Cynulliad, pwyllgorau'r Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad neu, os bydd yn llwyddo mewn balot, gan Aelod unigol.

5.13 Fel yn achos y balot ar gyfer Gorchmynion Cyfrin Gyngor, dim ond os yw wedi cyflwyno'r wybodaeth sy'n angenrheidiol yn y balot - sef teitl y Mesur arfaethedig a Memorandwm Esboniadol - y caiff Aelod ymuno â'r balot Mesurau. Os bydd yn llwyddo yn y balot, bydd yr Aelod yn gofyn caniatâd y Cynulliad i gyflwyno'i Fesur.

5.14 Bydd gan unrhyw Aelod sydd wedi llwyddo i gyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hawl awtomatig i gyflwyno Mesur o ganlyniad i'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwnnw.

5.15 Yn y Cynulliad, bydd yna broses pedwar cam i basio Mesur, sef:

(i) Cam 1 – ystyriaeth mewn pwyllgor Mesur ad hoc (gellir hepgor y cam hwn gyda chytundeb y Pwyllgor Busnes) a chytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur yn y cyfarfod llawn;

(ii) Cam 2 - ystyriaeth fanwl gan bwyllgor Mesur ad hoc ar y Mesur ac unrhyw welliannau a gyflwynir;

(iii) Cam 3 - ystyriaeth fanwl yn y cyfarfod llawn ar y Mesur ac unrhyw welliannau a ddewisir;

(iv) Cam 4 – pasio testun terfynol y Mesur.

5.16 Os caiff ei basio gan y Cynulliad ar ddiwedd Cam 4, mae'r Mesur yn cael ei gyflwyno i'w Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i gael y Gymeradwyaeth Frenhinol.

Is-ddeddfwriaeth

5.17 Gweinidogion Cymru a fydd yn gwneud is-ddeddfwriaeth a bydd is-ddeddfwriaeth yn destun gweithdrefn penderfyniad negyddol, gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol neu ddim gweithdrefn. Y Ddeddf neu'r Mesur y mae'r is-ddeddfwriaeth yn deillio ohoni neu ohono fydd yn pennu pa weithdrefn sy'n briodol. Os oes gan Weinidogion y DU swyddogaeth gyfatebol, y weithdrefn Gynulliad sy'n cyfateb i'r weithdrefn sy'n gymwys yn San Steffan fydd yn gymwys yma.

**Gweithdrefn penderfyniad negyddol** – bydd OS yn cael ei wneud cyn cael ei osod gerbron y Cynulliad (ond, heblaw yn eithriadol a chyda rhesymau, ni ddylai ddod i rym cyn pen 21 diwrnod ar ôl cael ei osod). O fewn 40 diwrnod ar ôl i'r OS gael ei osod, caiff Aelod gyflwyno cynnig yn y cyfarfod llawn y dylai'r OS gael ei ddirymu.

**Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol** – mae OS yn cael ei osod ar ffurf drafft ac ni chaniateir iddo gael ei wneud nes cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn y cyfarfod llawn. Ni chaniateir i gynnig i gymeradwyo'r OS gael

ei drafod nes bod y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth (neu unrhyw bwyllgor arall) wedi cyflwyno adroddiad ar yr OS drafft, neu nes bod o leiaf 20 diwrnod wedi mynd heibio ers iddo gael ei osod (p'un bynnag yw'r cyntaf).

5.18 Fydd dim "gweithdrefn weithredol" gyflym mwyach. Gall OS brys sydd i'w wneud o dan y weithdrefn negyddol gael ei wneud a'u ddwyn i rym ar unwaith, os bydd angen gwneud hynny. Bydd angen i ddeddfwriaeth frys sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol gael ei hystyried gan y Cynulliad yn gyflym, sydd i'w drefnu drwy negodi gwleidyddol.

5.19 Bydd yn dal yn rhaid cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Cynulliad, a rhaid i'r Memorandwm hwnnw gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Reoleiddiol sydd wedi'i baratoi.

5.20 Bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn cael craffu ar bob OS neu OS drafft a osodir gerbron y Cynulliad o safbwynt technegol. Mae'r pwyllgor hwnnw hefyd yn cael craffu ar yr offerynnau hynny o safbwynt polisi (gweler uchod). Does dim rôl benodol wedi'i rhoi i'r un pwyllgor arall yn hyn o beth, ond fe fyddai'n agored iddyn nhw graffu ar unrhyw eitem o is-ddeddfwriaeth.

Mesurau yn Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau newydd a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol y Cynulliad

5.21 Er y bydd gan y Cynulliad bwerau sy'n debyg i ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd Mesurau San Steffan yn dal yn gyfryngau pwysig i roi pwerau gweithredol newydd neu ddiwygiedig i Weinidogion Cymru ac i roi pwerau i wneud Mesurau i'r Cynulliad mewn perthynas â materion penodedig.

5.22 Y disgwyl yw mai dim ond gyda chydsyniad y Cynulliad y bydd San Steffan yn deddfu ar faterion datganoledig - sef trefniant sy'n debyg i Gonfensiwn Sewel sydd ar waith mewn perthynas â Senedd yr Alban. (Nid yw hyn yn cynnwys mân ddarpariaethau, darpariaethau canlyniadol a darpariaethau cysylltiedig, lle nad oes rhaid ymgynghori ond â Gweinidogion Cymru yn unig.)

5.23 Yn ychwanegol, bydd angen cydsyniad y Cynulliad hefyd ar gyfer unrhyw ddarpariaethau a gâi effaith negyddol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

5.24 Os bydd angen cydsyniad o'r fath, bydd yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad osod memorandwm i esbonio'r cynigion deddfwriaeth a gofyn i'r Cynulliad gytuno drwy gyfrwng Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol.

### 6. Cyllid a Chronfa Gyfunol Cymru

6.1 Mae'r Ddeddf yn sefydlu Cronfa Gyfunol i Gymru. O fis Ebrill 2007 ymlaen, dyma fydd y 'crochan' niwtral y caiff yr arian a bleidleisir i Gymru gan Senedd y Deyrnas Unedig (fel rhan o fformwla Barnett) ei dalu iddo.

6.2 Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn awdurdodi taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i Weinidogion Cymru yn unol â chynigion cyllideb a chynigion cyllideb atodol a gymeradwyir gan y Cynulliad.

6.3 Bydd y gwariant ar wahân sy'n perthyn i Gomisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn dod o Gronfa Gyfunol Cymru a bydd angen i'r gwariant hwn gael ei awdurdodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.4 Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer Pwyllgor Cyllid pwrpasol i graffu ar gynigion cyllideb Gweinidogion Cymru a chyflwyno adroddiadau arnyn nhw cyn iddyn nhw gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n derfynol gan y Cynulliad.

6.5 Caiff y cyfarfod llawn gymeradwyo newidiadau i'r gyllideb ddrafft, ar yr amod na fyddai effaith net y newidiadau hynny yn golygu newid cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigir.

6.6 Caniateir i amrywiadau ar y gyllideb derfynol a gymeradwywyd gael eu hawdurdodi gan y Cynulliad drwy gydol y flwyddyn drwy gyfrwng cynigion cyllideb atodol.

## 7. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

7.1 Mae trefniadau newydd ar gyfer deisebau cyhoeddus yn golygu bod rhaid i'r Cynulliad ystyried **unrhyw** ddeiseb dderbyniadwy.

7.2 Bydd deiseb yn annerbyniadwy os yw'n methu cydymffurfio â'r meini prawf y darperir ar eu cyfer yn y Rheolau Sefydlog, gan gynnwys os yw'n cynnwys llai na 10 o lofnodion, os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd neu os yw'n gofyn i'r Cynulliad wneud unrhyw beth nad oes ganddo gymhwysedd i'w wneud.

7.3 Bydd y Llywydd yn cyfeirio deiseb at y pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad. Caiff y pwyllgor yn ei dro gyfeirio'r ddeiseb at Lywodraeth Cynulliad Cymru, unrhyw un arall o bwyllgorau'r Cynulliad neu unrhyw berson neu gorff arall er mwyn iddyn nhw gymryd unrhyw gamau y maen nhw'n credu eu bod yn briodol.

7.4 Mae'r pwyllgorau perthnasol hefyd yn cael cymryd tystiolaeth gan y deisebwyr a phersonau perthnasol eraill.

## 8. Y Gymraeg

8.1 Rhad i holl Fesurau'r Cynulliad gael eu gwneud yn ddwyieithog ond mater i Weinidogion Cymru fydd penderfynu a ddylai is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud yn ddwyieithog.

8.2 Mae Cynllun Iaith Gymraeg arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu y bydd yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir drwy gyfrwng OS yn cael ei gwneud yn Gymraeg a Saesneg, oni bai nad yw hynny'n briodol neu'n rhesymol ymarferol.

8.3 Mae'r gofyniad ynglŷn â thriniaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wedi'i ddyblygu mewn perthynas â chynnal trafodion y Cynulliad ac arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad. Rhaid i bob dogfen a osodir neu bob busnes a gyflwynir yn y Cynulliad gan y Llywydd, y Comisiwn, y llywodraeth,

unrhyw bwyllgor neu'r Clerc fod yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol.

8.4 Mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg a fydd yn pennu'r mesurau y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cymryd er mwyn rhoi ei heffaith (cyn belled ag y bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol) i'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes yn y Cynulliad.

### 9. Gweld Gwybodaeth

9.1 O ganlyniad i wahanu, ni fydd darpariaethau Rheol Sefydlog 19 sy'n rhoi hawl i'r Aelodau i archwilio dogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud â thrafodion y Cynulliad yn cael eu dyblygu.

9.2 Er hynny, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Cynulliad alw tystion i roi tystiolaeth neu gyflwyno dogfennau. Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu'n benodol i graffu ar faterion sy'n ymwneud â sut mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau. Mae'r pŵer i alw yn cynnwys staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond bydd un o Weinidogion Cymru yn gallu enwebu swyddog gwahanol, neu roi cyfrif i'r pwyllgor ei hun. Ni fydd y pŵer hwn yn gymwys i Weinidogion y DU a'u gweision sifil nhw.

### 10. Penodiadau Cyhoeddus

10.1 Heblaw penodi'r Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus, lle mae yna rôl i'r Cynulliad, Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penodiadau.

10.2 Caiff pwyllgorau'r Cynulliad graffu ar sut mae gweithdrefnau penodi'n gweithredu. Hefyd, bydd llawer o'r penodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cymru yn dal i gael eu monitro a'u rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Yr Uned Weithdrefnau
Ebrill 2007